

**Cynllun Datblygu Lleol Newydd Bro Morgannwg
2021-2036**

Ffurflen Cyflwyno Safle Ymgeisiol

Sylwch fod y ffurflen hon hefyd ar gael ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk. Mae'r Cyngor yn annog hyrwyddwyr safleoedd i lenwi'r ffurflen safle ymgeisiol ar-lein gan ei bod yn cynnwys ffwythiannau defnyddiol ee mapiau electronig, nodiadau canllaw a'r gallu i uwchlwytho dogfennau ategol.

Nid yw'r weithred o gyflwyno safle ymgeisiol yn rhoi unrhyw sicrwydd y caiff y safle ei ddyrannu yn y CDLI Newydd. Bydd y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen cyflwyno safle i gynnal asesiad manwl o'r safle. Gellir gweld y fethodoleg asesu safleoedd a ddefnyddir i asesu'r safleoedd ymgeisiol a gyflwynir ar-lein, ac yn y lleoliadau canlynol yn ystod oriau agor arferol:

- Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU
- Llyfrgell y Barri
- Llyfrgell y Bont-faen
- Llyfrgell Llanilltud Fawr
- Llyfrgell Penarth

Rhaid llenwi ffurflen safle ymgeisiol ar wahân ar gyfer pob safle a gyflwynir. Os cynigir defnyddiau amgen ar gyfer yr un safle, bydd angen cyflwyno ffurflen safle ymgeisiol ar wahân ar gyfer pob defnydd. Caniateir llungopio'r ffurflen hon os oes angen.

Mae'r ffurflen safle ymgeisiol yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnom er mwyn cynnal asesiad trylwyr. Mae hi felly'n bwysig eich bod yn llenwi pob rhan o'r ffurflen. Bydd angen ichi hefyd ddarparu map o'r safle ymgeisiol er mwyn gallu cofrestru'r cyflwyniad.

Mae'r holl wybodaeth a geisir ar y ffurflen ar gael i'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi darparu mynediad at offeryn mapio ar-lein a fydd o gymorth ichi lenwi rhai rhannau o'r ffurflen safle ymgeisiol.

Mae'r symbol  ar y ffurflen ac yn y nodiadau canllaw yn golygu bod yr wybodaeth ofynnol ar gael drwy'r offeryn mapio.

Mae'r Cyngor wedi paratoi nodiadau canllaw er mwyn cynorthwyo hyrwyddwyr i lenwi'r ffurflen safle ymgeisiol.

Bydd yr 'Alwad' am safleoedd ymgeisiol yn cael ei chynnal rhwng 20/06/22 a 13/09/22. Dylid dychwelyd ffurflenni safle ymgeisiol erbyn 13/09/22.

Mae'n well gan y Cyngor i safleoedd ymgeisiol gael eu cyflwyno'n electronig drwy'r porthol ar-lein ar wefan y Cyngor. Fodd bynnag, bydd hefyd yn derbyn safleoedd ymgeisiol a gyflwynir drwy ddulliau eraill.

Mae'r ffurflen safle ymgeisiol ar gael mewn fformatau eraill ar gais, ee, Saesneg, print bras.

Sut y byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth.

Ar 25 Mai 2018, daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (RhDDC) i rym gan osod cyfyngiadau newydd ar y modd y gall sefydliadau ddal a defnyddio eich data personol, a diffinio eich hawliau mewn perthynas â'r data hynny. Bydd unrhyw wybodaeth personol a ddatgelir inni yn cael ei phrosesu'n unol â'n Hysbysiad Preifatrwydd. Ceir hyd i Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor yn

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Website-privacy-notice.aspx

Bydd yr holl safleoedd ymgeisiol ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar ffurf cofrestr safleoedd

ymgeisiol, ac felly ni ellir eu trin yn gyfrinachol. Bydd manylion safleoedd ymgeisiol hefyd yn cael eu rhannu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol fel bo modd asesu'r safleoedd hynny yn rhan o broses y CDLI Newydd. Ni chynhwysir unrhyw wybodaeth bersonol yn rhan o hyn.

Bydd manylion cyswllt yr holl hyrwyddwyr safleoedd a'u hasiantwyr (lle bo'n briodol) yn cael eu hychwanegu at gronfa ddata CDLI Newydd y Cyngor. Bydd y Cyngor yn gohebu â'r holl randdeiliaid drwy e-bost oni nodir fel arall.

Sylwer: Er mwyn i safle gael ei ystyried fel Safle Ymgeisiol bydd yn rhaid iddo fodloni un o'r trothwyon canlynol ar gyfer safleoedd:

Ar gyfer datblygiad preswyl - Mae trothwy maint safle gofynnol o 0.3 ha neu 10 annedd, ar ddwysedd o 30 annedd yr hectar [net] o leiaf. Mewn 'lleoliadau trefol' priodol e.e. canol tref y Barri bydd y Cyngor yn ceisio isafswm dwysedd o 50 annedd yr hectar [net] yn unol â'r egwyddorion strategol ar gyfer creu lleoedd yng Nghymru'r Dyfodol.

Ar gyfer datblygiadau amhreswyl - Mae'n rhaid i adeilad gynnwys isafswm o 1,000m² o arwynebedd llawr, neu mae'n rhaid i'r safle gynnwys isafswm o 1ha o arwynebedd gros.

Nid oes trothwy gofynnol ar gyfer safleoedd sy'n ceisio diogelu defnyddiau tir cyfredol neu gynnig safleoedd llety i sipsiwn a theithwyr, defnyddiau cymunedol, mannau gwyrdd, a defnyddiau seilwaith

Ni fydd safleoedd ymgeisiol sy'n is na'r trothwyon hyn yn cael eu derbyn i ddibenion yr ymarfer hwn. Os bydd safle'n cael ei gynnig ar gyfer cymysgedd defnyddiau ddatblygiad, dylid defnyddio'r trothwy sy'n cyfateb i'r prif fath o ddatblygiad.

1: Manylion Cyswllt

Manylion y Cynigydd			Manylion yr Asiant(os yn berthnasol) *		
Teitl			Teitl		
Enw			Enw		
Sefydliad: (os yn berthnasol)			Sefydliad: (os yn berthnasol)		
Cyfeiriad			Cyfeiriad		
Cod Post			Cod Post		
E-bost			E-bost		
Rhif Ffôn.			Rhif Ffôn.		
Dewis Cyfathrebu: (Ticiwch)	E-bost	☐	Dewis Cyfathrebu: (Ticiwch)	E-bost	☐
	Llythyr	☐		Llythyr	☐
Dewis Iaith: (Ticiwch)	Cymraeg	☐	Dewis Iaith: (Ticiwch)	Cymraeg	☐
	Saesneg	☐		Saesneg	☐

*Os ydych chi'n gweithredu fel Asiant, gofynnir ichi hefyd ddarparu manylion yr unigolyn/y sefydliad rydych yn ei gynrychioli (D.S. Bydd angen ichi gyflwyno ffurflen ar wahân ar gyfer pob unigolyn/sefydliad rydych yn ei gynrychioli). Os nad oes digon o le o dan bob cwestiwn i ddarparu'r wybodaeth ofynnol, llenwch y dudalen Gwybodaeth Ychwanegol sydd wedi'i hatodi ar ddiwedd y ffurflen hon.

2: Manylion Perchnogaeth y Safle

2.1	A yw'r safle'n eiddo cyhoeddus? <i>Os felly, rhowch dystiolaeth i ddangos bod y safle ar gael i'w waredu.</i>	Ydy	☐	Nac ydy	☐
2.2	Ai'r Cynigydd yw datblygwr arfaethedig y safle? <i>Os ddim, rhowch y manylion ychwanegol o dan gwestiwn 4.2.</i>	Ie	☐	Nage	☐
2.3	Ai'r Cynigydd yn unig sy'n berchen ar y safle? <i>Os ddim, rhowch wybodaeth bellach isod am bob perchennog ychwanegol ac/neu barti â buddiant ac esbonio sut yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau sy'n deillio o gyd-berchnogaeth y safle er mwyn sicrhau ei gyflawnadwyedd.</i>	Ie	☐	Nage	☐
Rhowch fanylion cyswllt yr holl bobl eraill â buddiant neu berchnogaeth gyfreithiol ar y safle, a natur y berchnogaeth honno/buddiant hwnnw ee, cyd-berchennog, rhyddfraint/cyfamod cyfreithiol. I gyd-fynd â'r wybodaeth hon, bydd yn rhaid cynnwys cynllun ar fap OS sylfaenol cyfredol sy'n dangos yn glir pa barseli tir sy'n eiddo i ba barti yn gysylltiedig â'r safle ymgeisiol					

(ac ar dir cyffiniol os yw hynny'n berthnasol).

Perchennog Safle Ychwanegol 1.

Teitl		Enw			
Sefydliad (os yw'n berthnasol)					
Cyfeiriad					
Cod Post					
E-bost			Rhif Ffôn		
Natur y berchenogaeth neu'r buddiant ee cyd-berchennog, rhan-berchennog.					
Ydy'r tirlfeddiannwr ychwanegol wedi cael gwybod bod y safle ymgeisiol yn cael ei gyflwyno? <i>Os ddim, esboniwch sut yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau sy'n deillio o gyd-berchnogaeth y safle er mwyn sicrhau ei gyflawnadwyedd.</i>	Do	☐	Naddo	☐	

Perchennog Safle Ychwanegol 2.

Teitl		Enw			
Sefydliad (os yw'n berthnasol)					
Cyfeiriad					
Cod Post					
E-bost			Rhif Ffôn		
Natur y berchenogaeth neu'r buddiant ee cyd-berchennog, rhan-berchennog.					
Ydy'r tirlfeddiannwr ychwanegol wedi cael gwybod bod y safle ymgeisiol yn cael ei gyflwyno? <i>Os ddim, esboniwch sut yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau sy'n deillio o gyd-berchnogaeth y safle er mwyn sicrhau ei gyflawnadwyedd.</i>	Do	☐	Naddo	☐	

Perchennog Safle Ychwanegol 3.

Teitl		Enw			
Sefydliad (os yw'n berthnasol)					
Cyfeiriad					
Cod Post					
E-bost		Rhif Ffôn			
Natur y berchenogaeth neu'r buddiant ee cyd-berchennog, rhan-berchennog.					
Ydy'r tirlfeddiannwr ychwanegol wedi cael gwybod bod y safle ymgeisiol yn cael ei gyflwyno? <i>Os ddim, esboniwch sut yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau sy'n deillio o gyd-berchnogaeth y safle er mwyn sicrhau ei gyflawnadwyedd.</i>	Do	☐	Naddo	☐	

Perchennog Safle Ychwanegol 4.

Teitl		Enw			
Sefydliad (os yw'n berthnasol)					
Cyfeiriad					
Cod Post					
E-bost		Rhif Ffôn			
Natur y berchenogaeth neu'r buddiant ee cyd-berchennog, rhan-berchennog.					
Ydy'r tirlfeddiannwr ychwanegol wedi cael gwybod bod y safle ymgeisiol yn cael ei gyflwyno? <i>Os ddim, esboniwch sut yr ymdrinnir ag unrhyw broblemau sy'n deillio o gyd-berchnogaeth y safle er mwyn sicrhau ei gyflawnadwyedd.</i>	Do	☐	Naddo	☐	

2.4	A yw'r Cynigydd (neu unrhyw dirfeddiannwr ychwanegol) yn rheoli neu'n berchen ar unrhyw dir cyffiniol? <i>Os felly, rhowch fanylion a dangos perchnogaeth</i>	Ydy	☐	Nac ydy	☐
-----	--	-----	--------------------------	---------	--------------------------

	<i>y tir ychwanegol ar gynllun y safle a gyflwynir gyda'r Ffurflen Safle Ymgeisiol (gweler adran 3 am ofynion mapio).</i>				

3: Manylion y Safle Ymgeisiol

Mae'n rhaid cyflwyno cynllun lleoliad i gyd-fynd â phob Safle Ymgeisiol **a gyflwynir**. Mae'n **rhaid** i gynllun y lleoliad fod ar fap arolwg ordnans sylfaenol, ac ar raddfa o 1:1250 neu 1:2500, a dangos y safle a'i gyd-destun. Dylid amlinellu'r tir sy'n destun cyflwyniad Safle Ymgeisiol â lliw **coch**, ac unrhyw dir ychwanegol sydd ym mherchnogaeth neu o dan reolaeth cynigydd y safle (neu'r cyd-berchnogion) yn **las**. Ni dderbynnir **safleoedd ymgeisiol a gyflwynir heb gynllun safle, neu gynllun safle nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion uchod**.

3.1	A oes cynllun lleoliad ar raddfa briodol wedi'i atodi i'r cyflwyniad safle ymgeisiol?	Oes	☐	Nac oes	☐
-----	---	-----	--------------------------	---------	--------------------------

Gwybodaeth am y Safle a disgrifiad o'r defnydd a gynigir

3.2	Enw'r Safle						
3.3	Cyfeiriad y Safle						
3.4	Cod Post y Safle						
3.5	Cyfeirnod Grid y Safle	Dwyreiniad		Gogleddiad			
3.6	Arwynebedd Gros y Safle (Ha)						
3.7	Ardal Ddatblygadwy Net (Ha)						
3.8	Nodwch pa gyfran o'r safle sy'n dir maes glas neu'n dir llwyd (tir a ddatblygwyd o'r blaen)	Maes Glas			%		
		Tir Llwyd			%		
3.9	Defnydd presennol y safle						
3.10	Defnydd arfaethedig y safle - nodwch isod						
Tai	☐	Manwerthu	☐	Safle Sipsiwn a Theithwyr (gweler * isod)	☐	Mwynau	☐
Cyflogaeth	☐	Tai Fforddiadwy/ Pobl Hŷn	☐	Hamdden/Twrist iaeth	☐	Seilwaith	☐
Defnydd Cymunedol	☐	Man Agored	☐	Trafnidiaeth	☐	Ynni Adnewyddadwy	☐
Arall	☐	Rhowch ddisgrifiad:					

3.11	Disgrifiad Cryno o'r Cynnig <i>Nodwch nifer yr unedau annedd, y dwysedd yn seiliedig ar yr arwynebedd net y gellir ei ddatblygu, rhaniad y ddeiliadaeth, arwynebedd llawr, ac ati, fel bo'n berthnasol. *Ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, dylid nodi ar gyflwyniadau faint o leiniau a gynigir, a nodi nifer y carafanau a ragwelir fesul llain, a'r math o garafanau, ynghyd ag unrhyw gyfleusterau ymolchi. Dylid nodi ar gyflwyniadau hefyd ai cynnig ydyw am safle teithiol neu safle parhaol. Ar gyfer cynlluniau ynni, dylid nodi allbwn y cynnig mewn MW. Os yw ar gael, gofynnir ichi hefyd ddarparu briff cychwynnol ar gyfer datblygu'r safle, uwchgynllun neu gynllun dangosol o'r safle, mynediad i'r briffordd ac ati.</i>				
3.12	A oes unrhyw ymholiad cyn-ymgeisio neu hanes cynllunio diweddar <u>perthnasol</u> yn gysylltiedig â'r safle? <i>Os felly, rhowch fanylion.</i>	Oes	☐	Nac oes	☐
3.13	A gyflwynwyd y safle'n flaenorol i'w ystyried fel Safle Ymgeisiol, neu a yw wedi'i ddynodi'n ddyraniad yn y CDLI mabwysiedig? <i>Os felly, nodwch y cyfeirnod blaenorol y safle ymgeisiol neu, os yw'n ddyraniad yn y CDLI cyfredol, esboniwch pam na chafwyd unrhyw gynnydd yn gysylltiedig â'r safle/pam na chyflawnwyd y safle.</i>	Do	☐	Naddo	☐
3.14	Disgrifiad Cryno o'r defnydd tir ar safleoedd cyfagos. <i>Rhowch amlinelliaid o natur unrhyw ddatblygiad/ddefnyddiau, os o gwbl, ar safleoedd cyffiniol.</i>				

4	Argaeledd y Safle				
4.1	A oes unrhyw gyfamodau, cyfyngiadau neu gyfyngiadau cyfreithiol hysbys a allai atal neu gyfyngu ar ddatblygiad y safle, ee, lleiniau pridwerth, adfachu, cyfyngiadau ar ddefnydd, cyfyngiadau ar fynediad? <i>Os felly, rhowch fanylion ac esboniwch sut y bydd y rhain yn cael eu goresgyn.</i>	Oes	☐	Nac oes	☐
4.2	A yw'r tir wedi cael ei farchnata i'w ddatblygu, neu a oes unrhyw drafodaethau wedi cael eu cynnal â darpar ddatblygwyr, ee, adeiladwyr tai o bwys? <i>Os felly, rhowch fanylion, gan gynnwys statws y trafodaethau, neu rhowch wybod am unrhyw gytundebau (ee, cytundebau tir ac ati) a allai fod wedi cael eu sefydlu.</i>	Ydy	☐	Nac ydy	☐

4.3	A oes unrhyw archwiliadau safle/arolygon safle wedi cael eu cynnal mewn perthynas â'r safle ee arolwg ecolegol, arolwg coed, asesiad llifogydd? <i>Os felly, rhowch fanylion yr archwiliadau safle/arolygon safle a gynhaliwyd isod a chyflwyno copïau o adroddiadau'r arolygon wrth gyflwyno'r safle ymgeisiol.</i>	Oes	☐	Nac oes	☐
-----	---	-----	--------------------------	---------	--------------------------

Nodwch pryd rydych yn tybio y bydd y safle'n debygol o gael ei ddatblygu dros gyfnod y cynllun.

4.4	Nodwch amseriad tebygol y canlynol:			
Cyflwyno Cais/Ceisiadau Cynllunio:		Dechrau'r gwaith ar y safle:		

4.5	Drwy ddefnyddio'r tabl isod rhowch syniad o'r amserlen debygol ar gyfer cyflawni'r safle. Os ydych yn cyflwyno safle preswyl, nodwch faint o anheddau rydych yn disgwyl eu cwblhau bob blwyddyn.
-----	--

Tymor Byr				
2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27
Tymor Canolig				
2027/28	2028/29	2029/30	2030/31	2031/32
Tymor Hir				
2032/33	2033/34	2034/35	2035/36	2036/37

5	Hyfywedd y Safle
Mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol cyflwyno arfarniad cychwynnol o hyfywedd safle i gyd-fynd â phob safle ymgeisiol ar gyfer datblygiad preswyl (ac eithrio llety i sipsiwn a theithwyr) a datblygiad masnachol a gyflwynir yn unol â'r trothwyon safle (a'r dwyseddu) isafswm a grybwyllwyd yn flaenorol. Mae'r Cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau eraill ar draws y rhanbarth, ochr yn ochr â'r ymgynghorwyr Cynllunio a Datblygu Trefol, Burrows-Hutchinson Ltd, i sefydlu offeryn asesu'r Model Hyfywedd Datblygu (MHD). Cafodd y MHD ei greu i fod yn fodel cynhwysfawr a hawdd ei ddefnyddio y gall hyrwyddwyr safleoedd a phenderfynwyr ei ddefnyddio i asesu hyfywedd ariannol cynnig datblygu. Mae pecyn cymorth MHD a nodiadau canllaw (gan gynnwys tiwtorialau fideo) ar gael ar-lein ar wefan y Cyngor. Noder - gall y Cyngor ofyn am ragor o wybodaeth am hyfywedd yn ddiweddarach.	

5.1	A oes asesiad hyfywedd datblygiad cychwynnol o'r safle wedi'i gynnal fel y'i rhagnodwyd? <i>Os felly, rhowch fanylion pellach isod a chynnwys copi o'r asesiad wrth gyflwyno'r safle ymgeisiol. Bydd y Cyngor yn derbyn tystiolaeth ychwanegol, gan gynnwys asesiadau hyfywedd safle cychwynnol, 3 mis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais safle ymgeisiol.</i>	Do	☐	Naddo	☐

6	Ystyriaethau Amgylcheddol.				
6.1 	A oes unrhyw ran o'r safle, gan gynnwys ardaloedd mynediad posibl wedi'u lleoli naill ai o fewn Ardal Amddiffynedig TAN 15, neu mewn ardal Parth Llifogydd 2 neu 3? <i>Os felly, rhowch fanylion pellach am natur y llifogydd a'r ardaloedd yr effeithir arnynt, gan gynnwys unrhyw dir cyffiniol, ac unrhyw fesurau lliniaru a gynigir.</i>	Oes	☐	Nac oes	☐
6.2 	A yw llifogydd dŵr wyneb yn effeithio ar unrhyw ran o'r safle, (Parth 1, 2 neu 3) <i>Os felly, rhowch fanylion yr ardaloedd yr effeithir arnynt gan gynnwys unrhyw dir cyffiniol ac unrhyw fesurau lliniaru a gynigir.</i>	Ydy	☐	Nac ydy	☐
6.3 	A fyddai datblygu'r safle yn effeithio ar unrhyw Safle Ewropeaidd / Cenedlaethol Dynodedig ecolegol (e.e. ACA, SoDdGA, AGA, RAMSAR, ac ati.) neu rywogaethau a warchodir, neu unrhyw ddynodiadau lleol a/neu anstatudol fel Gwarchodfeydd Natur, SoBCN, neu SoBCN. <i>Os felly, Rhowch ragor o wybodaeth am y dynodiad, unrhyw fesurau lliniaru a gynigir ac unrhyw astudiaethau / arolygon perthnasol sydd wedi'u cynnal neu y bwriedir eu cynnal ar y safle.</i>	Byddai	☐	Na fyddai	☐
6.4 	A fyddai datblygu'r safle yn effeithio ar ddynodiad neu nodwedd hanesyddol, archeolegol neu ddaearegol megis ardal gadwraeth, adeilad rhestredig, Heneb Gofrestredig? <i>Os felly, rhowch wybodaeth bellach a manylion unrhyw fesurau lliniaru a gynigir.</i>	Byddai	☐	Na fyddai	☐

6.5 	A fyddai datblygu'r safle'n arwain at golli'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas (BMV)? <i>Os felly, rhowch fanylion y dosbarthiad tir amaethyddol a faint o BMV fyddai'n cael ei golli yn sgil y datblygiad (gweler paragraff 3.58 ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 Chwefror 2021).</i>	Byddai	☐	Na fyddai	☐
6.6 	A yw'r safle o fewn Ardal Diogelu Mwynau neu Barth Clustogi Chwarel? <i>Os felly, rhowch fanylion am yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar ardaloedd diogelu mwynau ac/neu fanylion y parthau clustogi chwarel.</i>	Ydy	☐	Nac ydy	☐
6.7 	A yw'r safle'n cael ei effeithio gan Gynllun Datblygu Lleol neu reolaethau cynllunio eraill e.e. dynodiad Lletem Las, Ardal Tirwedd Arbennig, Gorchmynion Cadw Coed, Arfordir Treftadaeth Morgannwg, HTC. <i>Os felly, rhowch wybodaeth bellach am y dynodiadau perthnasol yn y CDLI mabwysiedig a manylion unrhyw fesurau lliniaru a gynigir.</i>	Ydynt	☐	Nac ydynt	☐
6.8 	A ydych yn gwybod am unrhyw halogiad ar y safle a fyddai'n atal datblygu yn y dyfodol, ee hen safleoedd tirlenwi, neu a ddefnyddiwyd y safle'n flaenorol at ddefnydd diwydiannau trwm? <i>Os felly, rhowch wybodaeth bellach a manylion unrhyw fesurau lliniaru a gynigir.</i>	Ydw	☐	Nac ydw	☐
6.9	A fyddai datblygu'r safle fel y cynigir yn creu problemau ar safleoedd cyfagos o ran sŵn, traffig, arogleuon ac ati? <i>Os felly, rhowch wybodaeth bellach a manylion unrhyw fesurau lliniaru a gynigir.</i>	Byddai	☐	Na fyddai	☐
6.10 	A oes unrhyw gyfyngiadau ffisegol hysbys yn effeithio ar y safle, ee ceblau pŵer uwchben, systemau cyflenwi nwy neu garthffos, llinellau rheilffordd, parthau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a fyddai'n cyfyngu ar ddatblygiad? <i>Os felly, rhowch wybodaeth bellach a manylion unrhyw fesurau lliniaru a gynigir.</i>	Oes	☐	Nac oes	☐

6.11 	A yw topograffi'r safle ac/neu unrhyw gyflwr tir ee, dyfrhaenau, yn cyfyngu ar ddatblygiad? <i>Os felly, rhowch wybodaeth bellach a manylion unrhyw fesurau lliniaru a gynigir</i>	Ydy	☐	Nac ydy	☐

7	Lleoliad y Safle: Hygyrchedd ac Agosrwydd at Wasanaethau a Chyfleusterau				
7.1 	Nodwch a yw'r cynnig o fewn, neu'n gyfagos â'r categorïau canlynol o anheddiad (fel y nodir yn y CDLI mabwysiedig) neu a yw mewn ardal o gefn gwlad agored. Os yw'r cynnig ar gyfer defnydd cyflogaeth neu fanwerthu, nodwch a yw'r safle ar safle cyflogaeth presennol neu mewn canolfan manwerthu y tu allan i'r dref.				
Anheddiad Allweddol (Y Barri)		Ydy	☐	Nac ydy	☐
Anheddiad Canolfan Wasanaethau <i>Y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth</i>		Ydy	☐	Nac ydy	☐
Prif Anheddiad <i>Dinas Powys, Llandochoau (Penarth), Y Rhws, Sain Tathan, Sili a Gwenfô</i>		Ydy	☐	Nac ydy	☐
Mân Anheddiad Gwledig <i>Aberthin, Tresimwn, Tregolwyn, Corntwn, Croes Cwrlwys, Dwyrain Aberddawan, Ewenni, Fferm Goch, Graig Penllyn, Llancarfan, Llandŵ, Llanmaes, Llysyrny, Aber Ogwr, Pendeulwyn, Penllyn, Llanbedr-y-fro, Tresign, Southerndown, Saint-y-brid, Sain Niclas, Treoes, Y Wig ac Ystradowen.</i>		Ydy	☐	Nac ydy	☐
Pentref Gwledig/Pentrefan Wledig Arall		Ydy	☐	Nac ydy	☐
Cefn Gwlad Agored		Ydy	☐	Nac ydy	☐
Safle cyflogaeth presennol (cynigion cyflogaeth)		Ydy	☐	Nac ydy	☐
Canolfan fanwerthu y tu allan i'r dref		Ydy	☐	Nac ydy	☐
<i>Rhowch fanylion pellach ynglŷn â'ch ateb, ee, mae'r safle 250m y tu allan i ffin anheddiad presennol.</i>					
7.2 	Pa mor bell yw'r safle o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau agosaf, ee, siopau, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, cyflogaeth leol, trafnidiaeth gyhoeddus.				
Llai na 5 munud ar droed (< 400m)		☐	Llai nag 20 munud ar droed (< 1,600m)		☐
Llai na 10 munud ar droed (< 800m)		☐	Mwy nag 20 munud ar droed (>1,600m)		☐
Llai na 15 munud ar droed (< 1,200m)		☐	Arall, rhowch fanylion		☐
<i>Rhowch fanylion pellach ynglŷn â'ch ateb, ee safle o fewn 250m i siop a 400m o ysgol gynradd leol.</i>					
7.3 	A fyddai datblygu'r safle yn cynnig cyfleoedd i greu, hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o ddulliau teithio	Byddai	☐	Na fyddai	☐

	cynaliadwy, ee, cerdded a beicio, Llwybrau Teithio Llesol, gwasanaethau bws lleol? <i>Os felly, rhowch fanylion pellach isod.</i>				
7.4 	A fyddai'r datblygiad a gynigir yn golygu colli cyfleuster cymunedol presennol, ee, ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, rhandiroedd a mannau addoli? <i>Os felly, rhowch fanylion pellach isod.</i>	Byddai	☐	Na fyddai	☐
8	Seilwaith a Chyfleustodau Ategol				
8.1	A oes modd cysylltu'r safle'n rhwydd â'r cyfleustodau canlynol? <i>Os ydych chi'n rhoi ateb negyddol yn unrhyw gategori, esboniwch sut y darperir y cyfleustodau.</i>				
	Prif gyflenwad dŵr.	Oes	☐	Nac oes	☐
	Prif system garthffosiaeth.	Oes	☐	Nac oes	☐
	Cyflenwad trydan	Oes	☐	Nac oes	☐
	Cyflenwad nwy	Oes	☐	Nac oes	☐
	Band eang / ffôn llinell dir	Oes	☐	Nac oes	☐
8.2 	A yw'r safle'n hygyrch o'r rhwydwaith priffyrdd cyhoeddus presennol? <i>Rhowch gynllun ar wahân o'r safle i ddangos y trefniadau a gynigir o ran cael mynediad i'r safle. Os nad yw'r safle'n hygyrch o'r rhwydwaith priffyrdd cyhoeddus, esboniwch sut y byddwch yn sicrhau mynediad iddo.</i>	Ydy	☐	Nac ydy	☐

9.	Newid Hinsawdd, Creu Lleoedd a Llesiant				
9.1	A fydd y cynigion yn cyfrannu at gyrraedd targedau newid hinsawdd cenedlaethol a thechnolegau cynhyrchu ynni di-garbon? Os felly, rhowch fanylion. Pa fesurau a weithredir yn rhan o'r cynnig er mwyn ymdrin â'r newid hinsawdd? A fydd y cynigion yn cynnwys unrhyw dechnolegau cynhyrchu ynni carbon isel neu ddi-garbon ac/neu'n mabwysiadu unrhyw safonau adeiladu cynaliadwy yn ychwanegol at reoliadau adeiladu safonol (ee, BREEAM, ac ati.)? Dylai datblygwyr ystyried gofynion y dyfodol i leihau carbon mewn adeiladau newydd wrth ddylunio eu cynlluniau, yn sgil newidiadau i Reoliadau Adeiladu yng Nghymru; bydd ystyried				

	unrhyw newidiadau i'r dyfodol yn sicrhau bod elfennau dylunio unrhyw ofynion yn cael eu hystyried cyn gynted â phosibl.			
9.2	Sut y bydd y cynnig yn cyfrannu at y Canlyniadau Creu Lleoedd Cynaliadwy Cenedlaethol (gweler Ffigur 5 Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11)) ¹ ac yn cadw at Egwyddorion Strategol ar gyfer Creu Lleoedd (Polisi 2) yn Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 ² ?			
9.3	Sut mae'r safle'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac yn cynorthwyo i fodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?			
9.4	Rhestr Wirio Cynllunio ar gyfer Iechyd a Lles			
Thema: Amgylcheddau Iach ac Egnïol				
Canlyniad		Ie	Na	Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig
A yw'r cynnig yn hyrwyddo teithio llesol, er enghraifft drwy gysylltu â llwybrau cerdded a beicio presennol, a/neu roi cyfle i ymestyn y rhwydwaith ehangach, er enghraifft drwy gysylltu â'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol, Llwybrau Teithio Llesol neu hawliau tramwy cyhoeddus?				
A yw'r llwybrau cerdded a'r llwybrau beicio wedi'u cynllunio mewn modd sy'n darparu llwybrau diogel a chyfleus sy'n hygyrch i bob defnyddiwr?				
A fydd llwybrau cerdded a beicio yn cysylltu â chyfleusterau lleol, trafnidiaeth gyhoeddus, mannau agored ac ati, ac yn rhoi mynediad di-rwystr atynt?				
A fydd darpariaeth storio a pharcio beiciau ddiogel a chyfleus yn unol â safonau parcio'r Cyngor?				
A fydd y cynnig yn cynnwys mesurau gostegu traffig (fel Parthau Cartrefi) sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded, beicio neu/a galluogi chwarae anffurfiol yn yr awyr agored?				
A fydd dyluniad a chynllun adeiladau yn annog gweithgarwch corfforol (e.e. a yw grisiau wedi'u lleoli mewn man fydd yn annog pobl i'w defnyddio)?				
Pan fo angen Cynllun Teithio, a oes dulliau clir ar waith i weithredu mesurau arfaethedig sy'n hyrwyddo teithio llesol?				
Thema: Amgylcheddau Sy'n Dda i Bobl Hŷn				
Canlyniad		Ie	Na	Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig

¹Gellir gweld Polisi Cynllunio Cymru (y rhifyn diweddaraf) yn <https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru>.

²Gellir gweld Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn <https://llyw.cymru/cymru-r-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040-0>.

A fydd y cynnig yn cynnwys cartrefi sy'n cael eu hadeiladu yn unol â safonau Cartrefi Gydol Oes a/neu a gynlluniwyd fel y gellir eu haddasu mewn modd fforddiadwy i ddiwallu anghenion preswylwyr yn y dyfodol?			
A fydd cynllun y safle yn osgoi newidiadau serth yn lefelau'r tir, neu'n sicrhau bod newidiadau i lefelau'r tir yn raddol?			
A oes cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus eisoes yn bodoli neu rai newydd megis safleoedd bws o fewn pellter cerdded, sef 400m?			
A yw llwybrau cerdded ac ati wedi'u cynllunio i roi mynediad cyfleus a diogel sy'n rhydd o rwystrau diangen?			
A yw dyluniad a chynllun y cynnig yn ymgorffori egwyddorion dylunio arfer gorau i gynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia?			

Thema: Diogelwch Cymunedol

Canlyniad	Ie	Na	Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig
A yw dyluniad a chynllun y cynnig yn cynnwys mesurau i leihau troseddau ac ofn troseddau mewn ymgynghoriad ag			
Ymgynghorydd Dylunio Atal Troseddau Lleol yr Heddlu?			

Thema: Mannau Agored

Canlyniad	Ie	Na	Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig
A fydd y cynnig yn darparu mannau agored newydd, neu'n gwella'r ddarpariaeth bresennol ac yn gwella mynediad at fannau sy'n bodoli eisoes?			
A fydd y ddarpariaeth mannau agored yn cynnig amrywiaeth o fannau chwarae i blant a phobl ifanc ac yn cynnwys mannau tawel?			
A fydd y mannau agored newydd neu'r rhai sydd eisoes yn bodoli o fewn pellteroedd cerdded yn unol â'r hyn a argymhellir gan safonau Meysydd Chwarae Cymru?			

Thema: Dewisiadau Bwyd Iach

Canlyniad	Ie	Na	Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig
A fydd y cynnig yn darparu cyfleoedd ar gyfer tyfu bwyd, er enghraifft drwy ddarparu rhandiroedd, gerddi preifat a chymunedol a thoeau gwyrdd?			
A fydd y cynnig yn cefnogi darparu a/neu gadw siopau bwyd lleol i ddarparu dewisiadau bwyd iachach?			

Thema: Cyfleusterau Cymunedol

Canlyniad	Ie	Na	Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig
A fydd y cynnig yn golygu colli cyfleuster cymunedol sy'n bodoli eisoes?			
A oes modd cyrraedd y cyfleusterau cymunedol yn hawdd drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus?			

A fydd y datblygiad yn darparu cyfleusterau cymunedol newydd neu well, gan gynnwys cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau a gwell mynediad at gyfleusterau cymunedol presennol?			
A yw'r effaith ar wasanaethau gofal iechyd ac anghenion addysg wedi cael ei hystyried a'i datrys?			
Thema: Hyrwyddo Teithio Llesol a Chynaliadwy			
Canlyniad	Ie	Na	Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig
A fydd y cynnig yn hyrwyddo teithio llesol a chynaliadwy yn unol ag egwyddorion yr hierarchaeth drafnidiaeth?			
A fydd y cynnig yn gwella cysylltedd a hygyrchedd i'r rhwydwaith cerdded a beicio presennol a'r gwasanaethau bws a thrên presennol?			
A yw'r datblygiad yn cael ei gefnogi gan gynllun teithio cynhwysfawr sy'n hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a mesurau teithio llesol, targedau ar gyfer newid moddol a strategaeth ar gyfer monitro hyn?			
Thema: Ansawdd Aer			
Canlyniad	Ie	Na	Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig
A yw dyluniad a chynllun adeiladau a thirlunio yn ceisio lleihau'r amlygiad i lygredd aer?			
A fydd y cynnig yn cynnwys mesurau i leihau allyriadau o drafnidiaeth ac adeiladau? E.e. mannau gwefru cerbydau trydan, cynlluniau clybiau ceir neu rannu ceir?			
Thema: Sŵn			
Canlyniad	Ie	Na	Esboniwch y mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig
A fydd y cynnig yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru effeithiau sŵn a achosir gan, er enghraifft, draffig a masnach drwy ddyluniad yr adeilad, cynllun y safle a thirlunio?			

GWYBODAETH BWYSIG I'R CYNIGYDD

Bwriedir i'r gofynion uchod fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad a gynigir.

Mae'n ddyletswydd ar hyrwyddwr y safle i ymgysylltu mewn modd cadarnhaol â phroses baratoi'r Cynllun ym mhob cam, gan weithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod yr wybodaeth berthnasol ar gael ar y cam priodol.

Hyrwyddwr y safle sy'n gyfrifol am gyflawni gwaith technegol perthnasol i gefnogi cais i gynnwys safle yn y Cynllun, gan gynnwys y costau ariannol. **Wrth gyflwyno safleoedd ymgeisiol, dylai hyrwyddwyr gynnwys cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i gefnogi eu cais. Os oes tystiolaeth safle-benodol yn cael ei pharatoi yn gysylltiedig â safle, dylid hysbysu'r Cyngor ynghylch hyn ac ynghylch pryd y bydd y dystiolaeth honno ar gael er mwyn cynorthwyo i asesu'r safle. Bydd yn rhaid cyflwyno unrhyw dystiolaeth ategol ychwanegol i'r Cyngor o fewn 3 mis ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno safleoedd ymgeisiol.**

Croesewir cyflwyniadau yn Gymraeg neu'n Saesneg. Drwy gyflwyno'r ffurflen hon, sylwch y bydd eich manylion cyswllt yn cael eu hychwanegu at ein cronfa ddata ar gyfer y CDLI Newydd, ac y byddwch yn

cael gwybod am gynnydd wrth baratoi'r CDLI Newydd. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, neu os nad ydych chi am dderbyn gwybodaeth mwyach, cysylltwch â thîm y CDLI drwy ddefnyddio'r manylion isod.

Ar ôl eu llenwi, dylid anfon ffurflenni safle ymgeisiol a gwybodaeth ategol yn ôl i dîm y CDLI:

AR-LEIN – Drwy lenwi'r ffurflen electronig yn www.valeofglamorgan.gov.uk

DRWY E-BOST - ldp@valeofglamorgan.gov.uk

DRWY'R POST-Tîm y CDLI Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfa'r Dociau, Dociau'r Barri, Y Barri, CD64 4RT

DYLID DYCHWELYD FFURFLENNI CYFLWYNO ERBYN 13/09/22 ar yr hwyraf.

NI YSTYRIR UNRHYW FFURFLENNI A DDAW I LAW AR ÔL YR AMSER/Y DYDDIAD HWN

SICRHEWCH FOD POB ADRAN O'R FFURFLEN WEDI'I CHWBLHAU

Os ydych chi wedi cyflwyno dogfennau ychwanegol i gefnogi'ch cyflwyniad safle ymgeisiol, rhestrwch y rheiny isod. Cofiwch amgáu unrhyw ddogfennau ategol perthnasol sydd eu hangen er mwyn i'r Cyngor gynnal asesiad llawn o'r safle ymgeisiol a gyflwynwyd.

Llofnod:		Dyddiad:	

